Teitl:	**Swyddog Allgymorth Cymunedol Celf ar y Blaen**
Lleoliad:	Sefydliad Llanhiledd
Cyfeirnod Swydd:	l'w gadarnhau
Cyflog:	Gradd 5 (£25,409 - £28,371)
Oriau:	37 awr yr wythnos
Statws contract:	Cyfnod penodol tan 31 Mawrth 2024 (gydag estyniad posibl)

Crynodeb Swydd

Daeth cyfle cyffrous ar gael o fewn tîm Celf ar y Blaen ar gyfer swydd Swyddog Allgymorth Cymunedol i ddarparu cymorth ymarferol a chreadigol i gynorthwyo cyflwyno rhaglen celfyddydau cymunedol egnïol ar draws rhanbarth Cymoedd De Ddwyrain Cymru.

Mae'r swydd yn addas ar gyfer ymgeiswyr sydd â rhai sgiliau ymarferol mewn celfyddydau cymunedol ac sydd eisiau datblygu eu gwybodaeth o reoli celfyddydau fel rhan o dîm celfyddydau cymunedol prysur.

Hysbyseb Lawn

Mae Celf ar y Blaen yn sefydliad celfyddydau cymunedol, sy'n gweithredu ar draws rhanbarth Cymoedd De Ddwyrain Cymru, yn cynnwys bwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful a Thorfaen. Caiff ei gyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i reoli gan bartneriaeth o awdurdodau lleol a'u hymddiriedolaethau hamdden a ddatganolwyd. Mae Celf ar y Blaen yn gweithio ar draws pob dull celf i ddarparu profiadau celf cyfranogol ac sy'n ysbrydoli ar gyfer pob grŵp oedran.

Gan weithio wrth ochr y tîm yn Celf ar y Blaen, mae swydd y Swyddog Allgymorth Cymunedol yn cyfuno cymorth arferol, tebyg i gyfrifoldeb am gynnal a chadw offer a deunyddiau prosiect a gyrru fan Celf ar y Blaen, gyda datblygu agweddau o raglen allgymorth cymunedol Celf ar y Blaen, yn cynnwys darpariaeth uniongyrchol a dogfennu rhai gweithdai creadigol, cynorthwyo gyda rheoli prosiectau a chyfathrebu gyda'r sawl sy'n cymryd rhan.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn unigolyn creadigol a gyda chymhelliant uchel sydd â sgiliau trefnu ac ymarferol da, sy'n wybodus ac angerddol am y celfyddydau ac a all weithio ar nifer o brosiectau allgymorth celfyddydau gwahanol ar unrhyw un amser.

Bydd y swyddog yn cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol ac yn cynnal cyfathrebu digidol Celf ar y Blaen ar sail dydd i ddydd. Bydd hefyd yn cydlynu'n rheolaidd gyda threfnwyr digwyddiadau, sefydliadau partner a'r sawl sy'n cymryd rhan i sicrhau y caiff gweithgareddau eu cynllunio'n dda a'u bod yn rhedeg yn llyfn.

Dylai ymgeiswyr fod ag addysg i lefel gradd, gorau oll os mewn disgyblaeth celfyddydau.

Mae’r sgiliau angenrheidiol mewn cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth i gyflawni holl ofynion y swydd yn hanfodol.

Disgwylir i’r swyddog weithio gyda’r nos, penwythnosau a gwyliau banc yn achlysurol. Mae’n hanfodol i’r swyddog fod â thrwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig, gan y bydd elfen o’r swydd yn cynnwys gyrru cerbyd y sefydliad.

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd cysylltwch â:
Bethan Lewis, Cyfarwyddwr Creadigol Gweithredol, Celf ar y Blaen 01495 400211 / 07800912130.

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Hanfodol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad cau:

Dyddiadau cyfweliadau:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government